4.75

# At Etholwyr Ceredigion.

## Etholiad 1910.

Mae'r dydd i wisgo'r arfau
    Wedi dod;
Dydd ymladd am ein hawliau,
    Wedi dod;
Mae gwaith ein hen orthrymwyr
Yn herio'n cynrychiolwyr,
Yn dweyd fod dydd y frwydyr
    Wedi dod,
Dydd i ymrestru'n filwyr
    Wedi dod.

Mae'n breiniau gwerthfawrocaf,
    Cofiwn hyn;
A'n hawliau godidocaf,
    Cofiwn hyn,
Ymron a mynd i golli
Drwy hyfdra yr Arglwyddi,
Os na ddeffrown o ddifri',
    Cofiwn hyn,
Awn eto i'r cadwyni,
    Cofiwn hyn.

Ar waethaf yr Arglwyddi,
    Dro yn ol,
Rhoed hawl i ni benodi
    Dro yn ol,
Gwŷr cymhwys i wneud deddfau
A sicrhau iawnderau
Pob dosbarth drwy'n terfynau,
    Dro yn ol,
Fe'n gwnaed yn awdurdodau
    Dro yn ol.

Ond nid yw ein hawdurdod
    Erbyn hyn,
Yn ddim ond megis cysgod
    Erbyn hyn,

Ar ol i'n gwŷr dewisol
I ddeddfu'n deg i'r bobol,
Daw'r *Lords* ymlaen yn wrol
    Erbyn hyn,
I droedio'u gwaith i'r heol
    Erbyn hyn.

Ac wedi diystyru'n
    Dynion ni,
A gwneud pob ystryw i ddrysu'n
    Dynion ni;
Dont eto at ein drysau,
A thwyll ar eu gwefusau,
I ddweyd eu bod yn ameu'n
    Dynion ni,
A ddylent wrando geiriau'n
    Dynion ni?

Feib gwrol Ceredigion,
    Byddwch gall,
Na huder chwi yr awrhon,
    Byddwch gall;
Gwnewch gofio fel bu'ch tadau
Yn brwydro am eu hawliau
Yn erbyn 'run pwerau,
    Byddwch gall,
Fel dewrion sefwch chwithau,
    Byddwch gall.

. . . .

Gofelwch fod yn brydlon
    Ddydd y *poll*,
Yn gywir ac yn ffyddlon
    Ddydd y *poll*;
Ymgasgled pawb o'r llwythau
Gadawed Dan ei longau,
A Reuben ei gorlanau
    Ddydd y *poll*,
Iau gorthrwm wnaer yn ddarnau
    Ddydd y *poll*.

UN O'CH PLANT.

---

Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan J. D. Lewis, Gomerian Press,
Llandyssul.

CARDIFF PUBLIC LIBRARIES
X205 218856